
Asesiad Cystadleuaeth BBC iPlayer

Datganiad ar benderfyniad terfynol Ofcom

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 1 Awst 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Rydyn ni wedi ymgynghori ynghylch cynlluniau'r BBC i newid BBC iPlayer, o fod yn wasanaeth ble mae rhaglenni ar gael i'w gwyllo am 30 diwrnod ar ôl eu darlledu, i fod yn wasanaeth ble mae rhaglenni ar gael am 12 mis fel mater o drefn, gyda rhai rhaglenni ar gael am gyfnod hirach.

Yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan Siarter a Chytundeb y BBC, rydyn ni wedi cynnal asesiad cystadleuaeth, lle gwnaethom: edrych ar y gwerth cyhoeddus a ddarperir gan gynigion y BBC, dadansoddi'r ffordd y maent yn effeithio ar gystadleuaeth, ac ystyried a yw'r gwerth cyhoeddus hwnnw'n cyfiawnhau'r effeithiau niweidiol a nodwyd gennym. Hefyd, fe wnaethom edrych ar y ffordd y gwnaeth y BBC ddatblygu ei gynigion. Rydyn ni wedi penderfynu y caiff y BBC ddal ati i fwrw ymlaen â'i gynlluniau, yn unol ag amodau.

Ein penderfyniadau

Mae'r ffordd y mae pobl yn gwyllo rhaglenni yn newid yn gyflym ac mae disgwyliadau gwylwyr yn datblygu. Nid yn unig eu bod am ddewis beth y maent ei wyllo, ond maent am ddewis sut a phryd maent yn ei wyllo. Rydyn ni wedi gweld datblygiadau sylweddol mewn rhaglenni fideo ar-alw gan wasanaethau fel Netflix ac Amazon Prime Video, yn ogystal â darlledwyr yn y DU. Mae'r hyn y mae gwylwyr yn ei ddisgwyl gan y BBC yn newid hefyd, ac mae hyn yn arbennig o wir am bobl ifanc.

Fe wnaeth y BBC gynnig newid ei strategaeth o ran BBC iPlayer, er mwyn ei newid o fod yn wasanaeth dal-i-fyny i fod yn gyrchfan i gynulleidfaeodd. Mae'r cynigion a nodir yn ei Brawf Lles y Cyhoedd yn cynnwys darparu'r rhan fwyaf o raglenni'r BBC am 12 mis, rhai am gyfnod hirach, gan ddarparu'r holl raglenni plant am bum mlynedd.

Rydyn ni wedi ystyried y cynigion hyn drwy Asesiad Cystadleuaeth y BBC. O dan Siarter a Chytundeb y BBC, mae ein gwaith yn cynnwys adolygu sut yr aeth y BBC ati i ddatblygu ei gynigion a'i asesiad o'i werth cyhoeddus. Rhaid i ni hefyd asesu effaith cynigion y BBC ar gystadleuaeth. Ar ôl hyn byddwn yn penderfynu naill ai bod y BBC yn cael gwneud y newidiadau arfaethedig i BBC iPlayer; ei fod yn cael gwneud hynny yn unol ag amodau; neu nad yw'n cael rhoi'r cynlluniau ar waith.

Rydyn ni wedi penderfynu bod gwerth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig i BBC iPlayer yn cyfiawnhau'r effaith niweidiol rydyn ni wedi'i nodi ar gyfer cystadleuaeth deg ac effeithiol; felly gall y BBC fwrw ymlaen â'i gynigion, yn unol ag amodau. Fe wnaethom ystyried ymatebion i'n hymgyngoriad ac rydyn ni wedi penderfynu, yn unol â'n penderfyniad dros dro, y gallai datblygiad arfaethedig y BBC ar gyfer BBC iPlayer greu gwerth cyhoeddus sylweddol. Fodd bynnag, rydyn ni'n dal i boeni am yr heriau cystadleuol a fydd yn cael eu creu, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a gwasanaethau newydd posibl fel BritBox, a sut y gallai hyn effeithio ar gynulleidfaeodd.

Mae ein casgliad yn unol ag amodau a chanllawiau i helpu sicrhau bod y BBC yn darparu'r gwerth cyhoeddus ac yn lliniaru risgiau i gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydyn ni'n gosod amodau ar y BBC i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi sut y bydd y BBC iPlayer newydd yn cyfrannu at ddarparu cenhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC a nodir yn y Siarter. Bydd hi'n ofynnol i'r BBC sefydlu fframwaith mesur perfformiad diwygiedig mewn ymgynghoriad ag Ofcom erbyn 31 Rhagfyr 2019. Rydyn ni hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC olrhain argaeledd a defnydd rhaglenni ar BBC iPlayer yn ofalus, a fydd yn helpu i gael mwy o dryloywder ynghylch graddfa ac effaith y gwasanaeth. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r BBC ac Ofcom ystyried yr effaith bosibl y bydd unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yn ei chael ar gystadleuaeth. Rydyn ni'n croesawu datganiad y BBC y bydd y newidiadau arfaethedig i argaeledd cynnwys ar BBC iPlayer ar gael i gynulleidfaeodd mewn modd cyfartal ar fersiynau safonol neu bwrpasol o BBC iPlayer; mae hi'n dal i fod yn bwysig bod y BBC yn cadw at ei rwymedigaethau rheoleidiol mewn perthynas â dosbarthiad i sicrhau bod ei wasanaethau ar gael yn eang ar sail deg, resymol ac anwahaniaethol.

Cafwyd beirniadaeth sylweddol gan randdeiliaid ynghylch y ffordd y gwnaeth y BBC ddatblygu ei gynlluniau a chynnal ei brawf lles y cyhoedd. Yn yr achos hwn mae hi wedi bod yn bosibl dod i benderfyniad er gwaethaf y methiannau hyn. Wrth edrych ymlaen, rydyn ni'n pwysleisio ei bod yn hanfodol i'r BBC ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rheolaidd mewn modd gweithredol a thryloyw er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Siarter i ddiogelu cystadleuaeth.